# Cyfrannu at lanhau diogel a chynaliadwy ac economi gylchol

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn rhan o'r maes cymhwysedd sy'n gysylltiedig â bod yn ecogyfeillgar a chynnal cynaliadwyedd. Mae'n ymwneud â chyfrannu at economi lanhau a chynaliadwy ac economi gylchol. Mae ar gyfer goruchwylwyr yn y diwydiant glanhau sy'n gorfod dangos eu bod yn gallu cyfrannu at ddulliau glanhau cynaliadwy ac economi gylchol i gynorthwyo arferion diogel wrth ymgymryd â gweithgareddau. Mae'r safon hon yn ymwneud â chymryd camau i leihau'r risgiau o heintio, niwed i'r amgylchedd ac aflonyddu ar gynefinoedd. Mae'n mynnu bod adnoddau'n cael eu defnyddio yn unol â gweithdrefnau ac arferion cymeradwy eich sefydliad, ac esbonio'r rhain i'r staff ac awgrymu gwelliannau lle gellir eu gwneud.

Mae polisïau a gofynion deddfwriaethol perthnasol i'w hystyried yn cynnwys y rhai ar gyfer:

1. iechyd a diogelwch, gan gynnwys rheoli sylweddau sy'n beryglus i iechyd
2. amgylchedd
3. rheoli ansawdd gweithredol
4. rheoleiddio
5. statudol
6. polisïau sefydliadol
7. cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol
8. asesiadau risg.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

**Mesurau gweithredol a gweithdrefnau diogelwch**

1. gwneud yn siŵr bod systemau gwaith diogel a gofynion yn cael eu dilyn er mwyn diogelu staff glanhau

2. monitro iechyd a lles staff mewn perthynas â feirysau a heintiau

3. hyfforddi eich staff mewn gweithdrefnau manwl o ran glanhau a rheoli heintiau, lle bo angen

4. darparu'r cyfarpar a'r cynhyrchion diogelu perthnasol i staff glanhau

5. gwneud yn siŵr bod cyfarpar diogelu yn cael ei wisgo bob amser wrth lanhau ac yn cael ei ailddefnyddio neu ei waredu yn unol â gweithdrefnau diogelwch sefydliadol

6. dilyn gofynion rheoli risg ffurfiol eich sefydliad cyn mynd i mewn i'r gweithle

7. cymryd y camau perthnasol yn dibynnu ar ganlyniad yr asesiadau risg a gynhaliwyd

8. gwneud yn siŵr bod gwaith yn cael ei wneud mewn modd sy'n lleihau llygredd ac aflonyddwch ffisegol

9. gwneud yn siŵr bod staff yn defnyddio deunyddiau ailgylchadwy, peiriannau statig a symudol a fydd yn lleihau llygredd ac aflonyddwch ffisegol

10. gwneud yn siŵr bod gwaith yn cael ei wneud yn unol â pholisïau a deddfwriaeth berthnasol

11. cydnabod achosion o aflonyddwch ffisegol a chymryd y camau priodol i ddileu'r rhain

12. nodi gwelliannau i weithdrefnau ac arferion eich sefydliad o ran arferion da amgylcheddol a chymryd y camau priodol

13. gwneud yn siŵr bod staff yn gwaredu gwastraff peryglus a gwastraff nad yw'n beryglus yn ddiogel yn unol â pholisïau a gweithdrefnau sefydliadol

14. cyfrannu at gynaliadwyedd ac economi gylchol ar gyfer arbed ynni, dŵr, adnoddau a chyfarpar yn ystod gweithgareddau glanhau i leihau niwed amgylcheddol a'r gwastraff a gynhyrchir

**Rheoli'r risg o haint**

15. dilyn gofynion eich sefydliad ar gyfer lliniaru'r risg o haint yn y gweithle

16. dilyn y gweithdrefnau glanhau yn dibynnu ar yr amgylchedd a'r risgiau a nodwyd

17. archwilio mannau i'w glanhau a nodi unrhyw fannau sy'n cael eu cyffwrdd yn aml

18. glanhau yn unol â'r amserlen waith a pha mor aml y mae hynny'n ofynnol yn dibynnu ar ganlyniadau asesiad risg

19. defnyddio cynhyrchion glanhau gan gynnwys toddiannau glanhau arbenigol, cemegau gwrthfacterol a gwrthfeirysol

20. defnyddio cyfarpar glanhau tafladwy fel bod llai o feirysau'n cael eu llwytho yn y mannau sy'n cael eu glanhau

21. dilyn y gweithdrefnau manwl o ran glanhau a diheintio ar gyfer halogiad feirysol a amheuir neu a gadarnhawyd

22. gwneud yn siŵr bod y cyfarpar glanhau a diogelu a ddefnyddir yn cael ei waredu yn unol â gweithdrefnau diogelwch penodol

23. gwneud yn siŵr bod y cyfarpar glanhau y gellir ei ailddefnyddio yn cael ei lanhau a'i ddiheintio

24. golchi a sychu'ch dwylo'n drylwyr ac yn ddiogel yn unol â gofynion y sefydliad

25. gwneud yn siŵr bod y cyfleusterau golchi dwylo yn cael cyflenwad digonol o doddiant golchi, geliau diheintio a dull hylan o sychu dwylo

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

### *Mae angen i chi wybod a deall:*

**Mesurau gweithredol a gweithdrefnau diogelwch**

1. systemau gwaith diogel eich sefydliad a'r gofynion ar gyfer diogelu staff glanhau

2. gweithdrefnau eich sefydliad ar gyfer monitro iechyd a lles staff mewn perthynas â feirysau a heintiau

3. hyfforddiant eich sefydliad mewn gweithdrefnau manwl o ran glanhau a rheoli heintiau

4. y cyfarpar a'r cynhyrchion diogelu perthnasol sydd eu hangen ar gyfer y swydd

5. sut i ailddefnyddio'r cyfarpar diogelu neu ei waredu yn unol â gweithdrefnau diogelwch eich sefydliad

6. gofynion sefydliadol i leihau'r risg o haint wrth deithio i safle a gweithio yno

7. y camau gweithredu perthnasol yn dibynnu ar ganlyniad yr asesiadau risg a gynhaliwyd

8. egwyddorion asesu risg ffurfiol eich sefydliad cyn mynd i mewn i'r gweithle

9. y dulliau perthnasol o leihau llygredd ac aflonyddwch ffisegol i'r amgylchedd wrth wneud gwaith

10. y deunyddiau a'r cyfarpar mwyaf addas i'w defnyddio yn dibynnu ar natur y gwaith, a'i effaith bosibl ar yr amgylchedd

11. y ffyrdd y dylid defnyddio offer a deunyddiau er mwyn lleihau niwed amgylcheddol

12. y gofynion gweithredol a deddfwriaethol o ran lleihau'r niwed amgylcheddol

13. sut i nodi gwelliannau i weithdrefnau ac arferion eich sefydliad o ran arferion da amgylcheddol

14. y mathau o niwed sy'n gallu cael ei achosi, yr effaith y gall y rhain ei chael ar yr amgylchedd a'r camau i'w cymryd i wneud yn iawn amdanynt

15. y dulliau perthnasol o waredu gwastraff peryglus a gwastraff nad yw'n beryglus fydd yn lleihau'r effaith ar yr amgylchedd

16. diben economi gylchol fel bod cyn lleied o niwed amgylcheddol a gwastraff â phosibl

**Rheoli'r risg o haint**

17. gweithdrefnau eich sefydliad ar gyfer lliniaru'r risg o haint

18. pa mor aml y mae angen gwneud gwaith glanhau arferol mewn mannau cymunedol, cyfleusterau a mannau lle ceir llawer o gysylltiad

19. y gweithdrefnau manwl o ran glanhau a diheintio ar gyfer halogiad feirysol a amheuir neu a gadarnhawyd

20. y mannau i'w glanhau a sut i nodi mannau sy'n cael eu cyffwrdd yn aml

21. yr ystod o gynhyrchion glanhau arbenigol a sut i'w defnyddio'n ddiogel ac yn effeithiol

22. y gweithdrefnau glanhau i'w dilyn, yn dibynnu ar yr amgylchedd a'r risgiau a nodwyd

23. gweithdrefnau eich sefydliad ar gyfer glanhau a diheintio cyfarpar y gellir ei ailddefnyddio

24. gweithdrefnau eich sefydliad ar gyfer gwaredu cyfarpar glanhau a diogelu sydd wedi'u defnyddio

25. hyd y gweithdrefnau golchi dwylo ar ôl tynnu'r cyfarpar diogelu

# Cyfrannu at lanhau diogel a chynaliadwy ac economi gylchol

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills CFA |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 23 Rhag 2021 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 01 Maw 2027 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Instructus |
| **RCU gwreiddiol** | ASTC311 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Galwedigaethau Elfennol, Menter manwerthu a masnachol, Galwedigaethau Glanhau Elfennol, Gweithrediadau Gwasanaethau Glanhau, Gweithrediadau Cynorthwyo Glanhau, Mentrau gwasanaethau |
| **Cyfres/Set** | Gwasanaethau Glanhau a Chefnogi |
| **Geiriau Allweddol** | cynaliadwy, amgylchedd, glanhau, gweithgareddau, lleihau, niwed, cynefinoedd, gweithdrefnau, arferion, gwelliannau |